# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Siambr Hywel - Tŷ Hywel**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 8 Hydref 2025

Amser y cyfarfod: 13.30

# 303 (v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr Hywel, Tŷ Hywel ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 3.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**I ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**

Luke Fletcher (Gorllewin De Cymru): Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch effaith tariffau cynyddol yr Undeb Ewropeaidd ar ddiwydiant dur Cymru?

**I ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**

Sian Gwenllian (Arfon): A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar y penderfyniad i gau Pont y Borth dros dro?

## 4 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

Ni chyflwynwyd unrhyw Datganiadau 90 eiliad.

## Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor

(5 munud)

**NNDM9007** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Russell George (Annibynnol) yn aelod o’r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn lle Joel James (Ceidwadwyr Cymreig).

## 5 Cynnig i ddiddymu Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru

(5 munud)

**NDM8997** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi y cafodd y Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru ei sefydlu ar 16 Mai 2023.
2. Yn nodi y gosodwyd adroddiad y Pwyllgor, ‘Adroddiad ar y bylchau a nodwyd ym mharodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn ystod pandemig covid-19 y dylid eu harchwilio ymhellach: Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU’, ar 25 Mawrth 2025.
3. Yn nodi y trafodwyd adroddiad y Pwyllgor, ‘Adroddiad ar y bylchau a nodwyd ym mharodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru yn ystod pandemig covid-19 y dylid eu harchwilio ymhellach: Modiwl 1 Ymchwiliad Covid-19 y DU’, ar 16 Gorffennaf 2025.
4. Yn cytuno, yn unol â Rheol Sefydlog 16.3, y dylai'r Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru ddod i ben.

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Cyfoeth Naturiol Cymru: Gwaith craffu blynyddol 2024-25

(60 munud)

**NDM8996** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Cyfoeth Naturiol Cymru: Gwaith craffu blynyddol 2024-25 a osodwyd ar 21 Mai 2025.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Hydref 2025. Ymatebodd Cyfoeth Naturiol Cymru ar 3 Gorffennaf 2025.

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Cymorth tai i bobl sy’n agored i niwed

(60 munud)

**NDM8995** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod Senedd Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 'Cymorth tai i bobl sy’n agored i niwed', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mai 2025.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Hydref 2025.

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Cynllun Ffermio Cynaliadwy

(60 munud)

**NDM8999** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn gresynu y bydd asesiad Llywodraeth Cymru o effaith economaidd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a gyhoeddwyd ar 30 Medi 2025 yn arwain, yn ôl amcangyfrifon, at:

a) 56,000 o dda byw Cymreig yn cael eu colli;

b) 1,163 o swyddi ar ffermydd Cymru yn cael eu colli; a

c) £76.3 miliwn o incwm busnes ffermydd yn cael ei golli.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddileu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy presennol a chyflwyno cynllun yn ei le sy'n gweithio i ffermwyr, gan roi diogeledd bwyd a chynhyrchiant yn ganolog iddo.

Asesiad effaith economaidd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod y cydweithio a ddigwyddodd wrth ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chyfraniad sylweddol rhanddeiliaid.

2. Yn nodi cyhoeddi'r Cynllun ar 15 Gorffennaf 2025 a'r gwaith parhaus gyda rhanddeiliaid ar yr haenau Dewisol a Chydweithredol.

3. Yn croesawu cyhoeddi Achos Busnes llawn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy er mwyn bod yn agored a thryloyw.

4. Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fuddsoddi dros £340 miliwn yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2026.

5. Yn annog ffermwyr i ystyried manylion y cynllun ei hun a defnyddio'r canllaw cyflym sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Dileu pwynt 2 a'i roi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru a Bord Gron Gweinidogol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i barhau i esblygu a diwygio'r cynllun er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy a hyfyw i'r sector amaethyddol yng Nghymru.

**Gwelliant 3** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraethau Cymru a'r DU i weithio gyda'i gilydd i ddarparu setliad ariannol aml-flwyddyn i'r sector amaethyddol, ac i symud i ffwrdd o Farneteiddio'r gyllideb ffermio er mwyn darparu sefydlogrwydd economaidd i'r sector.

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8992** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Rhwystro mynediad at addysg: y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) a pham bod rhaid ei ddiwygio.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 14 Hydref 2025